CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 20 IONAWR 2015

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, A Hopcyn, E Lovgreen,
K Williams, W L Davies

1.Ymddiheuriadau

T Thomas, A Bohana, E Hughes, M Thomas, C Williams, H Edwards,
G Thomas, B Owen

2.Cyhoeddiadau'r Maer

Ffilmio ar gyfer rhaglen Heno i sôn am stamp Castell Caernarfon

3.Datgan Buddiant Personol

Cyng W T Owen – cynllunio

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 6 Ionawr 2015
ii. Is Bwyllgor Adloniant 6 Ionawr 2015
iii. Panel Cyllid a Staff 7 Ionawr 2015

Penderfynwyd

i) Derbyn fel rhai cywir
ii) Derbyn fel rhai cywir a nododd y clerc bod llythyrau Gŵyl Dewi angen eu dosbarthu gan Gynghorwyr
iii) Derbyn fel rhai cywir a cefnogi eu cynnwys

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio
Penderfynwyd

1.Dymchwel y modurdai presennol a chreu mannau parcio ar gyfer deiliaid y stad — Cytuno

Modurdai / Garages –Llys Siabod, Caernarfon

(aeth Cyng W T Owen allan ar gyfer yr eitem)

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Ymateb parthed Parc Solar

Cafwyd eglurhad gan y clerc bod y swm wedi nodi yn anghywir (sef y swm gwreiddiol) a bod hi wrthi yn ceisio cael sicrwydd gan y cwmni newydd

Penderfynwyd
Gohirio trafodaeth nes ddaw cadarnhad a cadw Cyngor Felinheli yn y darlun

10. Cymdeithas Dinesig

Noson agored 29 Ionawr
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

11. Llythyr National Grid

Penderfynwyd
Croesawu bod nhw yn mynd o dan y Fenai ond nodi siomedigaeth yn y cymal lle maent yn honni gwrando ar yr holl sylwadau pan yr ydym yn ymwybodol bod llawer iawn wedi gwrthod hyn

12. Llythyr Cyngor Gwynedd

Parthed hyfforddiant Cod Ymddygiad
Penderfynwyd
Croesawu'r cyrsiau ac edrych ar pwy i anfon unwaith fydd dyddiadau ar gael

13. Rhybudd o Gynnig Cyng. Ann Hopcyn

Parthed Gynnau Dinesig
Penderfynwyd
Gan bod sefyllfa ariannol Y Cyngor yn iach ar hyn o bryd prynu y 7 sydd ei angen cyn i'r prisiau godi

14. Y Pwyllgor Deisebau - Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Penderfynwyd
Cefnogi ond nodi siom o dderbyn llythyr uniaith Saesneg

15.Cwestiynau

Oes na dyddiad ar gyfer noson cofiadur anrhydeddus eto ?
Nagoes, disgwyl cadarnhad gan un ohonynt

Gorffennodd y Cyfarfod am 6.35

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....